# PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD: 30 MEHEFIN 1999 YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, BAE CAERDYDD

# BLAENRAGLEN WAITH

## Pwrpas

1. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod a chytuno ar y flaenraglen waith sydd i'w gweld ar y papur amgaeedig, a chytuno y dylid ei dosbarthu i bwyllgorau pwnc eraill er mwyn cael eu sylwadau arni.

## Cefndir

2. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bob pwyllgor pwnc gynnal rhaglen dreiglol o waith am o leiaf 12 mis. Caiff y rhaglen ei hadolygu bob tri mis.
3. Mae Rheol Sefydlog 9.9 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod pwyllgorau pwnc yn gwahodd barn pwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad ar eu rhaglenni drafft ac yn rhoi sylw i'r sylwadau hynny wrth lunio'r rhaglenni terfynol. Caiff y Pwyllgor gyfle i gynnig sylwadau ar flaenraglenni gwaith y pwyllgorau pwnc eraill yn y cyfarfod nesaf.
4. Lluniwyd y flaenraglen waith ddrafft sy'n amgaeedig er mwyn ei hystyried gan y Pwyllgor yn dilyn trafodaethau anffurfiol rhwng y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd Cynulliad a phleidiau gwlediyddol eraill, yn ogystal â rhwng y Clerc a'r swyddogion.

## Y flaenraglen waith ddrafft

5. Tan ddiwedd Hydref, bydd y Pwyllgor yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn trafod dau brif fater: y Strategaeth Datblygu Cenedlaethol a'r Dogfennau Rhaglen cysylltiedig; a blaenoriaethau Cyllideb y Cynulliad.
6. Disgwylir i Gorfforaeth Dat blygu Bae Caerdydd ddod i ben ar 31 Mawrth 2000. Bydd angen is-ddeddfwriaeth er mwyn gwneud hyn. Bydd y Pwyllgor am edrych yn fanwl ar y trefniadau i ddod â'r gorfforaeth i ben ac mae amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyn yn ystod y cyfnod o Hydref i Fawrth.
7. O dan Reol Sefydlog 9.7(iii) mae gan y Pwyllgor rôl o ran goruchwylio gwaith cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Awdurdod Datblygu Cymru, Y Bwrdd Croeso a Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yw'r prif Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a gaiff eu goruchwylio gan y Pwyllgor. Caiff un corff ymgynghorol ei oruchwylio gan y Pwyllgor hefyd, sef Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru. Neilltuir amser i ystyried adroddiadau, cyfrifon, cynlluniau corfforaethol a thargedau'r cyrff hyn. Bydd gwaith cyrff eraill yn cael eu hystyried pan fo'u cyfrifoldebau'n effeithio ar bwnc y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried (e.e. byddai ystyried dulliau o gynorthwyo busnesau yn golygu edrych ar

waith Cynghorau Hyfforddi a Menter, awdurdodau lleol, Cyswllt Busnes etc).

## Datblygu polisi

8. Yn ogystal â gwaith y Strategaeth Datblygu Cenedlaethol a dogfennau Rhaglen, bydd cyfle i'r Pwyllgor fod ynghlwm wrth waith datblygu polisi. Gall y Pwyllgor gyfrannu mewn sawl ffordd, er enghraifft gall gynnig sylwadau ar gwrs gwaith arfaethedig neu gall gynnal ymchwiliad llawn i fater. Byddai datblygu polisi o bwys yn golygu ymgynghori a sesiynau tystiolaeth a byddai hynny'n digwydd dros nifer o fisoedd.
9. Yn ei gyfarfod cyntaf mynegwyd pryder gan y Pwyllgor yngln â'r nifer o asiantaethau sy'n ymwneud â darparu cymorth busnes. Y mae adolygiad o ddatblygiad busnesau bach felly wedi'i gynnwys yn y rhaglen, a bydd yn dechrau fis Rhagfyr. Efallai bydd y Pwyllgor am ystyried meysydd eraill ar gyfer datblygu polisi yn hwyrach yn y flwyddyn.

## Materion trawsbynciol

10. Mae gwaith y Pwyllgor yn gorgyffwrdd â gwaith nifer o bwyllgorau eraill, yn enwedig Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig ac Addysg ar ôl 16 oed. Mae'r rhaglen yn cynnwys dau gyfle i drafod ar y cyd gyda'r pwyllgorau hyn – y naill yn ymdrin â'r economi wledig, a'r llall yn ymwneud ag addysg uwch a'r economi.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor 25 Mehefin 1999**